# Volunteer Role Description

## Village Store Assistant



**Title:** Training Assistant
**Responsible to:** Ben Monk
**Base:** The Village Store, Machynys

### What is a Village Store Assistant?

Our Village Store offers members access to great quality low-cost food, helping household budgets stretch further. Store assistants are the backbone of our Village Store – they provide a welcome and assist the community in their shopping experience whilst also ensuring the store is clean, attractive and stock is up to date.

### What's in it for you?

- Join a friendly team who are passionate about zero waste and their community
- Use your skills and experience to improve our store and make it the best it can be
- Meet new people
- Gain valuable experience and training in retail, customer service and environmental sustainability
- Gain Time Credits through the Tempo scheme that can be spent in a range of places

### What's involved?

- Assist the public
- Assist in the management of stock rotation
- Handle payments
- Assist in keeping the store clean and tidy

### Who is the role suitable for?

- Someone with an interest in retail
- Someone with an interest in reducing waste
- Someone who is honest and reliable
- Someone who is comfortable meeting and speaking with new people



### Extra Information:

**Time Commitment:** Store opening hours are currently Wednesday - Friday from 10-4. We are looking for volunteers who can commit to at least one day a week, though this can be split into shorter shifts (either 10-1 or 1-4).

**Training:** All volunteers will receive a full induction and training for the role, including training in First Aid, Manual Handling, Food Safety & Hygiene and Allergens.

**Support:** All volunteers will receive ongoing support with regular one-to-one meetings with the volunteering co-ordinator. A member of staff will be contactable at all times whilst volunteering. Volunteers will be able to attend social events with other Foothold Cymru volunteers.

**Expenses:** Travel costs will be reimbursed. Lunch expenses for all-day volunteering can be reimbursed up to the value of £3.60.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

FOOTHOLD CYMRU
NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP

# Disgrifiad Rôl Wirfoddoli

## Cynorthwyydd Siop y Pentref



**Rôl:** Cynorthwyydd Siop y Pentref
**Atebol i:** Ben Monk
**Lleoliad:** Siop y Pentref, Machynys

### Beth yw Cynorthwyydd Siop y Pentref?

Mae'n Siop y Pentref ni'n cynnig mynediad i aelodau at fwyd cost isel o ansawdd gwych, gan helpu i ymestyn cyllidebau cartrefi ymhellach. Cynorthwywyr siop yw asgwrn cefn Siop y Pentref – maent yn darparu croeso ac yn cynorthwyo'r gymuned yn ystod eu profiad siopa tra hefyd yn sicrhau bod y siop yn lân, yn ddeniadol a'r stoc yn gyfredol.

### Beth mae'n ei gynnig i chi?

- Ymuno â thîm cyfeillgar sy'n angerddol am sero gwastraff ac am eu cymuned
- Defnyddio eich sgiliau a'ch profiad i wella ein siop a'i gwneud y gorau y gall fod
- Cwrdd â phobl newydd
- Ennill profiad gwerthfawr a hyfforddiant mewn manwerthu, gwasanaeth cwsmer a chynaliadwyedd amgylcheddol
- Ennill Credydau Amser drwy'r cynllun Tempo y gellir eu gwario mewn amrywiaeth o leoedd

### Beth mae'n ei olygu?

- Cynorthwyo'r cyhoedd
- Cynorthwyo i reoli cylchdro stoc
- Delio â thaliadau
- Cynorthwyo i gadw'r siop yn lân ac yn daclus

### Ar gyfer pwy mae'r rôl yn addas?

- Rhywun sydd â diddordeb mewn manwerthu
- Rhywun sydd â diddordeb mewn lleihau gwastraff
- Rhywun sy'n onest ac yn ddibynadwy
- Rhywun sy'n gyfforddus yn cyfarfod ac yn siarad â phobl newydd

### Gwybodaeth Ychwanegol:

**Ymrwymiad Amser:** Ar hyn o bryd, oriau agor y siop yw dydd Mercher i ddydd Gwener o 10-4. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr sy'n gallu ymrwymo i o leiaf un diwrnod yr wythnos, er y gellir rhannu hyn yn sifftiau byrrach (naill ai 10-1 neu 1-4).

**Hyfforddiant:** Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant cynefino llawn a hyfforddiant ar gyfer y rôl, gan gynnwys hyfforddiant mewn Cymorth Cyntaf, Codi a Chario, Diogelwch a Hylendid Bwyd ac Alergenau.

**Cefnogaeth:** Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn cefnogaeth barhaus gyda chyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda'r cydlynydd gwirfoddoli. Bydd modd cysylltu ag aelod o staff bob amser wrth wirfoddoli. Bydd gwirfoddolwyr yn gallu mynychu digwyddiadau cymdeithasol gyda gwirfoddolwyr eraill Foothold Cymru.

**Treuliau:** Bydd costau teithio yn cael eu had-dalu. Caiff costau cinio hyd at £3.60 eu had-dalu am wirfoddoli drwy'r dydd.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council